# Cynllunwyr Iaith Cymru

y fforwm proffesiynol ar gyfer cynllunwyr iaith yng Nghymru.

# Miliwn o siaradwyr Cymraeg: Ymateb Cynllunwyr Iaith Cymru

Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad cyfres o gyfarfodydd ymgynghorol a gynhaliwyd gan Gynllunwyr Iaith Cymru fel a ganlyn:

- Gweithgor ymgynghorol – Prifysgol Aberystwyth, 20 Medi 2016
- Cyfarfod ymgynghorol – Prifysgol Aberystwyth, 10 Hydref 2016
- Cyfarfod ymgynghorol – Swyddfa IAITH, Abergele, 11 Hydref 2016
- Cyfarfod ymgynghorol - Lido Pont-y-pridd, 12 Hydref 2016

Cyfrannodd dros 40 o aelodau CIC i'r cyfarfodydd uchod ac anfonwyd cyfraniadau ar e-bost gan nifer o aelodau eraill. Mae aelodau CIC yn broffesiynolion yn y maes polisi a chynllunio iaith - yn ymgynghorwyr, academyddion ac ymarferwyr. Hyderwn fod ein hymateb yn gyfraniad adeiladol i'r broses.

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllunwyr Iaith Cymru yn croesawu'r uchelgais a nodir yn y ddogfen hon. Yn sicr, mae bwriad Llywodraeth Cymru i geisio dyblu'r nifer o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ddi-os, yn nod i'w gymeradwyo. Mae'r bwriad o osod y nod hynny o fewn ffrâm amser estynedig hefyd i'w groesawu. Mae gosod gweithgareddau polisi a chynllunio iaith o fewn ffrâm newid sy'n rhychwantu cenhedlaeth – a thu hwnt i'r cylch etholiadol gwleidyddol – i'w gefnogi.

1.2 Mae gweld Llywodraeth Cymru yn gosod yr uchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yn elfen greiddiol o bolisi cyhoeddus ein gwlad yn ddatblygiad chwyldroadol yn ei hun. Fodd bynnag, mae uchelgais chwyldroadol o ran polisi cyhoeddus yn gofyn am weithredu chwyldroadol a chyllido chwyldroadol yn ei sgìl. Erys cwestiynau sylfaenol, felly, ynghylch gallu'r strategaeth a gynhigir yma i gyrraedd at y nod clodwiw a osodwyd – o ran ei amcanion a'r adnoddau a bennir iddo.

1.3 Fodd bynnag, rhaid cwestiynu ar y dechrau ai cynyddu'r nifer o 'siaradwyr' ddylai fod yn briod nod i'r Strategaeth yntau cynyddu'r nifer o 'ddefnyddwyr' ynghyd â'i rhugldeb a'i hyder ieithyddol yn y Gymraeg. Tra bod cynyddu 'siaradwyr' yn nod cymeradwy, yn strategol ac o ran cyfleu bwriad cadarn, mae cynyddu 'defnyddwyr' y Gymraeg yn cydnabod realiti a chymhlethdod prosesau adfer iaith ac yn gosod nod mwy cynaliadwy.

Da fyddai gweld y strategaeth yn dilyn yn fwy eglur yr agweddau a nodir yn y datganiad o weledigaeth glodwiw sy'n agor y ddogfen; ac yn ei hadeiladu o gwmpas tri amcan sylfaenol:

- creu siaradwyr Cymraeg;
- creu defnyddwyr o'r Gymraeg; a

- chreu hinsawdd ac amodau cymdeithasol sy'n hwyluso'r defnydd hwnnw.

1.4 Cyn ehangu ar ein hymateb i agweddau penodol o'r ddogfen, cyfyd rhai cwestiynau sylfaenol eraill ynghylch y strategaeth sy'n haeddu sylw, e.e.:

- I ba raddau mae'r Llywodraeth wedi llawn ystyried y newidiadau demograffig, cymdeithasol, technolegol, economaidd a gwleidyddol sy'n gyd-destun i unrhyw bolisi cyhoeddus cyfredol a pholisi iaith yn benodol?
- I ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac adeiladu yn fwriadus ar sail strategaethau, deddfwriaeth a datblygiadau polisi hanesyddol a chyfredol? Ac i ba raddau mae'n plethu gyda blaengareddau polisi eraill o fewn rhaglen y Llywodraeth?
- I ba raddau mae'r strategaeth wedi ei seilio ar sylfaen ddeallusol gydlynol; rhagamcanion ystadegol trwyadl; a thystiolaeth gadarn a dynnwyd o blith ymyriadau llwyddiannus yma yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau?
- I ba raddau mae'r strategaeth yn realistig a chynaliadwy yn ei huchelgais i greu a chynnal cynifer o siaradwyr a defnyddwyr newydd o'r Gymraeg?
- I ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried maint yr her gychwynnol o gynnal y sefyllfa bresennol yn wyneb llu o ffactorau cymdeithasol ac economaidd cyfredol, cyn ystyried yr her bellach o ddyblu'r niferoedd o siaradwyr?
- I ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr angen i gynnal a datblygu cymunedau, cymdogaethau, rhwydweithiau a chyd-destunau a all gynnal y defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr hen a newydd yn ogystal â chynnal a datblygu prosesau i atgynhyrchu'r defnydd hwnnw?
- A fydd adnoddau priodol yn cael eu neilltuo gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gymesur â'r dasg?

1.5 Cyfyd cwestiynau hefyd ynghylch y graddau mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyried y seilwaith a osodwyd gan y strategaeth gyfredol a strategaethau cynt. At hynny, tybed i ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu ar arbenigedd polisi a chynllunio iaith o'r tu allan i'r gwasanaeth sifil wrth lunio'r strategaeth hon? Mae gan Gymru arbenigwyr ac arloeswyr o safon ryngwladol yn y maes hwn.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymgynghoriad hyderir y daw dogfen derfynol i'r fei a fydd yn llawer mwy cydlynus a chyflawn yn ei gweledigaeth o weld y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei siarad a'i defnyddio yn helaeth gan bobl o bob gallu ym mhob agwedd o fywyd ein cenedl.

## 2.0 Sylwadau ar y testun

### 2.1 Blaenoriaethau

Wrth osod blaenoriaethau'r Strategaeth dan benawdau thematig byddai'n dda gwybod pa fodel(au) polisi a chynllunio iaith sydd wedi bod yn sail ddeallusol i drafodaethau a chynllunio'r Llywodraeth, e.e. mae gan UNESCO fodel naw pwynt y mae'n ei ddefnyddio i fesur hyfywedd ieithoedd llai[1]. At hynny, mae gan Glyn Williams a Delyth Morris fodel gwerthfawr o'r prosesau sy'n dylanwadu ar allu cymdeithasau i gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith[2]. Awgrymwn yn gryf y dylai'r Llywodraeth fanylu ar sail ddeallusol ei ymagwedd ac amlygu hynny er mwyn i eraill ddeall rhesymeg waelodol y Strategaeth y mae'n ei gynnig i'r genedl.

[1] http://www.unesco.org/new/en/culture/themes/endangered-languages/language-vitality/

[2] Williams G. a Morris D, "Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age", Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd: 2000, (tud.21).

Mae teitlau'r Meysydd Datblygu yn rhai cyffredinol ac amwys iawn ac o'r herwydd yn medru cwmpasu nifer o agweddau nad sydd o reidrwydd yn gydgysylltiol. Da fyddai gweld penawdau thematig y Strategaeth yn adlewyrchu agweddau o'r prosesau sydd wrth waith wrth atgynhyrchu, cynhyrchu a chynyddu'r defnydd o iaith leiafrifol.

Serch ein hamheuon am fframwaith cysyniadol y Strategaeth, cyflwynir nifer o sylwadau ar sail y fframwaith cyfredol a gynhigir gennych isod:

## 2.2 Maes Datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith [sic.]

Croesawir y sylw a roddir i'r maes Polisi a Chynllunio Iaith (P&CI). Mae gwir angen i bolisi a chynllunio iaith dderbyn mwy o statws a sylw fel gweithgaredd proffesiynol yng Nghymru. Mae cydnabod y maes fel maes thematig o fewn y Strategaeth yn gwneud llawer i godi ei statws a'i arwyddocâd.

Mae'r ail amcan i godi proffil y Gymraeg, a materion polisi a chynllunio iaith, o fewn cylchoedd grym a dylanwad yng Nghymru i'w groesawu yn fawr iawn – er y byddai mwy o fanylder ar sut y bwriedir gwneud hynny yn amheuthun.

Fodd bynnag, mae'r pwyslais o fewn testun y maes hwn yn y ddogfen yn syrthio yn o drwm ar ddatblygiadau sydd ond yn un agwedd ar yr wyddor o bolisi a chynllunio iaith fel y cyfryw, e.e. hyfforddi athrawon a chynyddu capasiti gwasanaethau i ddarparu yn y Gymraeg. Awgrymwn mai dan bennawd *Maes Datblygu 3: Addysg* y dylai bwriadau felly cael eu gosod?

Dylai'r Maes Datblygu hwn – polisi a chynllunio iaith – ganolbwyntio ar ymdrechion i arfogi a chynyddu gallu unigolion ac asiantaethau i ymhél yn ystyrlon ac effeithiol gyda'r dasg o hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg, gan gynnwys gweithredu'r Strategaeth ei hun. Hynny ydy, dylai'r adran gyfeirio ar agweddau megis:

- datblygu rhaglen ymchwil,
- hyfforddi ac addysgu gwneuthurwyr polisi a gweithredwyr yn y maes;
- datblygu capasiti academaidd yn y maes, ynghyd â chorff o wybodaeth fyddai'n gefn i'r maes;
- datblygu strwythurau i ymrymuso a galluogi proffesiynolion i wella a datblygu eu hymarfer o fewn sefydliadau ac yn y gymuned.

Dylai'r Maes Datblygu hefyd gynnwys blaengareddau i brif-ffrydio egwyddorion a gofynion strategol i feysydd polisi eraill; ynghyd â hyrwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn gyffredinol drwy sectorau blaenoriaeth a'r boblogaeth yn gyffredinol.

Yn fyr, ac yn gwbl allweddol, heb weithlu P&CI gwybodus a sgilgar sy'n deall diben a natur ei waith nid oes modd gweithredu unrhyw strategaeth P&CI yn effeithiol nac yn effeithlon.

Mae Cynllunwyr Iaith Cymru yn llwyfan ac yn gyfrwng parod i hyrwyddo'r ffrwd yma o waith. Byddem yn croesawu'r cyfle i gydweithio yn nes ac yn fwy ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru i'r dibenion hyn.

## 2.3 Maes Datblygu 2: Normaleiddio

Mae angen sicrhau fod yr ymagwedd hon wedi ei seilio ar sylfeini cymdeithasegol cadarn. Mae angen eglurdeb cysyniadol sy'n cydnabod mai ffactorau cymdeithasol sy'n llywio defnydd iaith ac felly mai creu'r amodau cadarnhaol hynny ddylai fod yn

flaenoriaeth, rhagor na dibynnu ar fympwy unigolion. Mae yna angen hefyd i ddeall y gwahaniaeth cysyniadol ac ymarferol rhwng 'siaradwyr' a 'defnyddwyr'. Fel nodwyd eisoes, creu defnyddwyr ymhlith pobl o bob gallu yw'r nod mwyaf ystyrlon a chynaliadwy.

Mae'r pwyslais a geir ar statws a bri'r Gymraeg yn gwbl briodol yn ogystal â'r sylw ynghylch pwysigrwydd ei hamlygu yn yr amgylchedd gweledol. Gyda hynny, dylai creu, cynyddu a chynnal cyd-destunau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn 'norm' disgwyliedig fod yn flaenoriaeth ganolog i'r Strategaeth; a hynny er mwyn creu defnyddwyr hyderus ymhlith pobl o bob gallu - o fewn y teulu, y gymuned, yn y gweithle, mewn rhwydweithiau amrywiol ac yn y pau cyhoeddus yn gyffredinol.

## 2.4 Maes Datblygu 3: Addysg

Cydnabyddwn fod y system addysg yn gwbl allweddol i'r nod o greu siaradwyr newydd. Nid ydym eisiau taro unrhyw sylw ar y bwriadau da hynny yma, heblaw nodi bod yr hyn a nodir yn y Strategaeth yn fwriad uchelgeisiol iawn y bydd angen cryn gynllunio, cefnogaeth wleidyddol ac adnoddau i'w gyflawni. Yn wir, gellid dadlau bod angen ailgynllunio'n system addysg yn llwyr - o'r blynyddoedd cynnar i fyny - er mwyn cyrraedd at y nod. Yn sicr, rhaid cryfhau yn sylweddol iawn ar ymrwymiadau'r Cynlluniau Addysg Gymraeg cyfredol. Mae cymariaethau i'w cael mewn gwledydd eraill megis Gwlad y Basg - lle mae'r buddsoddiad yn y system addysg iaith Basgeg wedi bod yn sylweddol iawn. Diau fod lle i ddysgu gwersi yno.

Yn dilyn ein sylwadau ynghylch Maes Datblygu 1 – fel nodwyd, yma mae'r priod le i nodi'r bwriad strategol o gynyddu'r capasiti o fewn y gweithlu addysg.

Fodd bynnag, rhaid nodi na fydd dibynnu ar y system addysg yn unig yn tycio i droi siaradwyr yn ddefnyddwyr. Mae gwledydd sy'n llwyddo i adfer iaith leiafrifol yn dueddol i roi pwyslais cyfochrog ar addysg a defnydd. Rydym yn awyddus iawn i annog y Llywodraeth i ehangu ei ddiffiniad o'r maes addysg i gynnwys addysg anffurfiol yn y gymuned – drwy fudiadau ieuenctid ac asiantaethau diwylliannol, chwaraeon a hamdden – a gweithgareddau allgyrsiol cydlynus. Byddai buddsoddiad sylweddol a phwrpasol mewn hwyluswyr cymunedol effeithiol o fewn y cyd-destun addysg anffurfiol yn dwyn llawer o ffrwyth. Rhaid hefyd dwyn byd gwaith yn nes at y system addysg er mwyn sicrhau gwerth economaidd i sgiliau Cymraeg. Heb gydblethu ymdrechion rhwng ysgol, cartref, gweithgareddau cymdeithasol a'r gweithle ni fydd siaradwyr yn troi'n ddefnyddwyr hyderus.

Un llinyn arian drwy'r cyfan yw'r angen i adeiladu ar becyn ymwybyddiaeth iaith mewn addysg Llywodraeth Cymru, 'Ein Hiaith: Our Language', a lledaenu rhaglenni ymwybyddiaeth iaith drwy bob agwedd o'r gyfundrefn. Yn wir, gellid dadlau bod angen ymgyrch genedlaethol eang i esbonio'r genhadaeth ac i ddwyn cefnogaeth eang pobl Cymru i'w hamcanion. Byddai ymgyrch o'r fath angen cynnwys elfen gref o gynyddu ymwybyddiaeth y boblogaeth o werth a manteision y Gymraeg i ni fel cenedl.

## 2.5 Maes Datblygu 4: Pobl

Tra ein bod yn cytuno a chefnogi'r amcanion a nodir yn yr adran hon yn gyfan gwbl, mae traethant yr adran eto'n amlygu'r dryswch cysyniadol sydd yn y ddogfen rhwng 'siaradwyr' a 'defnyddwyr'. Credwn fod angen i'r ddogfen osod 'creu defnyddwyr' y Gymraeg yn nod canolog.

Cydnabyddir bod y syniad o 'gymuned' a phatrymau cymdeithasol mewn proses o newid yn gyfredol. Mae cymdeithas gyfoes wedi ei chyfyngu yn llai i gymunedau daearyddol na fu yn y gorffennol ac mae angen dealltwriaeth llawer cliriach o amrywiaeth ac arwyddocâd rhwydweithiau cymdeithasol – rhwydweithiau diddordeb, rhwydweithiau diwylliannol a rhwydweithiau ar sail technoleg cyfathrebu.

Fodd bynnag, mae angen hefyd talu sylw i ddwysedd y rhwydweithiau hynny - h.y. dwysedd daearyddol (yn deuluol, cymdogaethol, rhanbarthol a chenedlaethol - ac yn wir ryng-genedlaethol) gan fod hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd fod yna gyfleoedd i unigolion a grwpiau ddefnyddio'r Gymraeg. Nid sefyllfa ddeuol yw hi - lleol neu gyfryngol - ond sefyllfa gymdeithasol lle mae'r plethwaith o'r lleol/daearyddol a'r cyfryngol/rhwydweithiol yn cryfhau ac atgyfnerthu ei gilydd.

### 2.6 Maes Datblygu 5: Cefnogi

Nid oes gennym sylw ar yr adran hon fel y cyfryw. Mae'r angen i ddatblygu agweddau ar gynllunio corpws, ynghyd â sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg ar y cyfryngau torfol a'r dechnoleg newydd, yn rhan amlwg o strategaeth iaith genedlaethol er mwyn hwyluso ei statws a'i defnydd.

Er hynny, byddem yn cyfeirio at ein sylwadau dan Faes Datblygu 1 - sef bod sicrhau gweithlu P&CI gwybodus a sgilgar yn rhan gefnogol allweddol o unrhyw Strategaeth. Eto, mae Cynllunwyr Iaith Cymru yn awyddus i gydweithio yn fwy dwys a ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru i'r dibenion hynny.

### 2.7 Maes Datblygu 6: Hawliau

Anodd yw cynnig sylwadau ar yr adran hon heb fwy o wybodaeth benodol ynghylch bwriadau'r Llywodraeth yn hyn o beth. Carem, fodd bynnag, yng nghyswllt darparu gwasanaethau cyhoeddus weld cyfeiriadaeth benodol at fwriadau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gynyddu capasiti, gallu a hyder darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i fedru darparu eu gwasanaethau yn y Gymraeg.

## 3.0 Sylwadau ychwanegol

Yn ychwanegol at y pwyntiau uchod mae rhai pwyntiau ychwanegol y carem ni i'r Gweinidog ac awduron y Strategaeth eu hystyried:

3.1 Mae cyhoeddi bwriad i ddatblygu strategaeth tymor hir yn codi'r disgwyliadau am weld cynlluniau strategol a gweithredol interim (bob 5 mlynedd dyweder) yn cael eu sefydlu. Nid oes sôn yn y ddogfen hon am sut fyddai'r Strategaeth yn cael ei monitro. Hyderir y bydd yna ddatblygu set o feini prawf mwy soffistigedig na chyfanswm y siaradwyr Cymraeg dros amser yn unig. Awgrymwn y dylai set o feini prawf ystyrlon gael ei datblygu ar sail model cyfansawdd o hyfywedd iaith a chynnwys agweddau megis canrannau mewn cymunedau, lefelau hyder a defnydd ynghyd â nifer o agweddau meintiol ac ansoddol eraill.

3.2 Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni credwn fod cyhoeddi'r strategaeth hon yn gyfle i Lywodraeth Cymru amlygu a diffinio beth yn union sydd o fewn ei gallu i'w gyflawni, gan gydnabod ei chryfderau a'i gwendidau yn y mater hwn. Gyda hynny, dylai hefyd fanylu ar ei disgwyliadau o'i phartneriaid strategol ac asiantaethau eraill ym mhob pau o gymdeithas - y cyhoeddus, y preifat a'r gwirfoddol. Ymhellach dylai gydnabod yr angen i grwpiau a chymunedau i weithredu yn greadigol ac adeiladol o

blaid y Gymraeg o'u rhan eu hunain a'i hawl i wneud hynny, gan eu hannog a'u galluogi yn eu hymdrechion.

3.3 Mae angen i'r strategaeth gydnabod yn llawer cliriach bod y Llywodraeth yn ymwybodol o'r heriau economaidd a demograffig sy'n wynebu'r Gymraeg, ynghyd â'r cyfleoedd a ellir eu datblygu yn y cyswllt hynny. Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at rôl sylfaenol yr economi wrth gynnal hyfywedd iaith ac nid oes cyfeiriad ynddi at fudoledd poblogaeth – yn allfudo a mewnfudo – a'i ddylanwad ar hyfywedd y Gymraeg. Yn y cyswllt hwn, mae cyfle wedi ei golli i weithredu ar y consensws cyffredinol bod yna gyfle euraidd i gyfuno datblygu economaidd a chynllunio iaith mewn modd adeiladol a blaengar wrth bennu ardaloedd twf iaith/economi sydd wedi eu seilio ar ardaloedd Caerfyrddin, Aberystwyth a Glannau Menai, er enghraifft.

3.4 Yn gysylltiedig â hyn, maes arall sydd angen derbyn sylw llawn yn y strategaeth yw'r maes Cynllunio Gwlad a Thref. Gellir dadlau fod pasio Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac, i raddau llai, Deddf Amgylcheddol (Cymru) 2016 wedi newid yn sylweddol y berthynas rhwng y maes cynllunio defnydd tir a llesiant yr iaith Gymraeg. Byddai'n briodol i strategaeth iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru amlygu a chryfhau'r berthynas hon.

3.5 Yn olaf, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnig strwythur i gryfhau prif-ffrydio ystyriaethau o'r Gymraeg ar draws meysydd polisi cyhoeddus. Byddai'n briodol i'r strategaeth fanylu ar y cyfleoedd hyn. Buasai mynnu, er enghraifft, bod cyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus yn gorfod cyffwrdd â'r saith agwedd sydd i'r Ddeddf Llesiant yn fodd o gryfhau a 'normaleiddio' darpariaeth a chyfleoedd ar gyfer defnyddwyr o'r Gymraeg.

## 4.0 Sylwadau clo

I grynhoi, mae Cynllunwyr Iaith Cymru yn croesawu uchelgais y Strategaeth ddrafft hon a'r amserlen tymor hir y mae'n gosod i'r maes. Fodd bynnag, credwn fod angen i'r Strategaeth derfynol:

- ffocysu ar nod o greu 'defnyddwyr' rhagor na 'siaradwyr' a gwneud y syniad o gynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu'r amodau i hynny ddigwydd yn ganolog i'r holl Strategaeth;
- seilio'r Strategaeth ar sylfaen gysyniadol gadarn a chydnabyddedig ac amlygu ei hymagwedd tuag at y dasg o gynnal ac ehangu'r defnydd o Gymraeg;
- ein hargyhoeddi bod y Llywodraeth wedi llawn ystyried y newidiadau demograffig, cymdeithasol, technolegol, economaidd a gwleidyddol sy'n gyd-destun i unrhyw bolisi cyhoeddus cyfredol a pholisi iaith yn benodol;
- ein hargyhoeddi bod y Llywodraeth yn gwbl ymwybodol o'r her ac yn barod i neilltuo adnoddau priodol ar gyfer gwireddu ei hamcanion;
- amlygu'r bwriad i fuddsoddi yn y maes polisi a chynllunio iaith er mwyn adeiladu'r gallu ymhlith gweithlu'r maes i wireddu'r dyheadau a nodwyd, gan wneud hynny mewn partneriaeth â Chynllunwyr Iaith Cymru ac eraill;
- amlygu'r angen i greu, cynyddu a chynnal cyd-destunau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn 'norm' disgwyliedig er mwyn cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr hyderus, pobl o bob gallu – o fewn teuluoedd, mewn cymunedau a chymdogaethau, yn y gweithle, mewn rhwydweithiau amrywiol ac yn y pau cyhoeddus yn gyffredinol;
- sicrhau adnoddau priodol i wireddu eu bwriadau yng nghyswllt system addysg Gymraeg ddiwygiedig, gan sicrhau buddsoddiad cyfatebol mewn addysg anffurfiol a chyd-destunau allgyrsiol;

- datblygu ei dealltwriaeth ac ymyriadau priodol mewn rhwydweithiau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ddwysau cyfleoedd o fewn rhwydweithiau cymdeithasol ar sail ddaearyddol aml-haenog;
- cydnabod dylanwad yr economi a symudoledd poblogaeth ar hyfywedd y Gymraeg a chynllunio'n strategol ar gyfer twf yn ardaloedd Caerfyrddin, Aberystwyth a Glannau Menai;
- cydnabod a chryfhau'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a chynllunio ieithyddol;
- adnabod yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei gyflawni yn effeithiol o'i rhan ei hun, ynghyd ac adnabod agweddau y bydd yn cydweithio gyda'i bartneriaid ac asiantaethau eraill i wireddu amcanion.

**Cynllunwyr Iaith Cymru**
**Hydref 2016**